Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 11 Medi 2020 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| L G Thomas | L V Walton | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Craig Davies | Cyfreithiwr |

---

## 92 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 93 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 94 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Ganiatáu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - WSS

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â WSS.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd WSS yr amgylchiadau mewn perthynas â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd gwrthod** cais WSS am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat gan nad oedd y Pwyllgor yn ystyried WSS yn berson addas a phriodol neu ddiogel. Yn ogystal â hyn, ni welodd y pwyllgor unrhyw gyfiawnhad dros beidio â dilyn canllawiau.

.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.06am

**Cadeirydd**